# Y Pwyllgor Deisebau

## PET(3)08-01 (p7): 17 Ionawr 2008

### Deiseb cyf P-03-071: Deiseb: Ysgol Gyfun Garth Olwg - Gohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies

### Diben

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried yr ohebiaeth a dderbyniwyd oddi wrth yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies yn cefnogi'r ddeiseb. Atodir copi o'r llythyr yn Atodiad A.

Hefyd, gofynnir i'r Pwyllgor ystyried nodyn cyfreithiol a ddarparwyd gan Is-adran y Gyfraith, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Atodir copi o'r nodyn hwn yn Atodiad B.

### Y Cefndir

Mae'r ddeiseb yn gwrthwynebu newid enw'r ysgol.

Ystyriodd y Pwyllgor y ddeiseb hon am y tro cyntaf yn ei gyfarfod 4 Hydref 2007, ac ystyriodd dystiolaeth ysgrifenedig ychwanegol oddi wrth y deisebwyr ar 22 Tachwedd 2007. Yn ei gyfarfod 6 Rhagfyr 2007 gwrandawodd y Pwyllgor ar dystiolaeth lafar gan banel o dystion oedd yn cynrychioli'r deisebwyr.

Cytunwyd hefyd yn y cyfarfod 6 Rhagfyr 2007 y byddai'r Pwyllgor yn gofyn am gyngor cyfreithiol ynglŷn â'r cwestiwn ai'r awdurdod lleol ynteu gorff llywodraethol yr ysgol biau'r penderfyniad terfynol ynghylch newid enw ysgol. Darparwyd y cyngor hwn gan Is-adran y Gyfraith, Cynulliad Cenedlaethol Cymru. Atodir copi o'r nodyn cyngor hwn yn Atodiad B.

### Camau i'w cymryd gan y Pwyllgor

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried llythyr yr Arglwydd Gwilym Prys-Davies yn cefnogi'r ddeiseb a phenderfynu ar ateb.

Gofynnir i'r Pwyllgor ystyried y nodyn cyngor cyfreithiol a phenderfynu ar unrhyw gamau ymhellach.

Gwasanaeth y Pwyllgorau

Ionawr 2008